This document is also available in English

CYNNWYS

**ADRAN 12**


**12. Swyddogion**

12.1 Swyddogion a Strwythur Rheoli
12.2 Rheolau'r Weithdrefn Cyflogi Swyddogion

## ADRAN 12 -SWYDDOGION

### 12.1 Swyddogion

**1. Strwythur Rheoli**

**a) Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Strategol**

Y Prif Weithredwr

Mae yna ddau Gyfarwyddwr Strategol: (1) Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau) a (2) Cyfarwyddwr Strategol (Gofal Cymdeithasol ac Addysg).

Gall y Prif Weithredwr benodi Cyfarwyddwr Strategol i fod yn Ddirprwy Brif Weithredwr i ymgymryd â swyddogaethau fel y gwelai'n briodol.

Nid oes gan y Prif Weithredwr na'r Cyfarwyddwyr Strategol gyfrifoldeb uniongyrchol dros wasanaethau, ond mae ganddynt gyfrifoldeb rheoli cyffredinol dros y Cyngor, yn enwedig o ran canolbwyntio ar berthnasoedd allanol, risgiau corfforaethol, rheoli perfformiad gwasanaethau, moderneiddio gwasanaethau, datblygiad economaidd a phrosiectau mawr.

**(b) Yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh)**

Mae'r UDRh yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol, pob Pennaeth Gwasanaeth ac Uwch Reolwyr fel sy'n ofynnol gan y Prif Weithredwr, a hwn yw prif dîm rheoli'r Awdurdod.

**(c) Y Tîm Arwain Strategol**

Mae'r Tîm Arwain Strategol yn gyfrifol am reolaeth gorfforaethol o ddydd i ddydd, yn cynnwys:

- Y Prif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Strategol
- Swyddog Monitro
- Pennaeth Pobl a Pherfformiad
- Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
- Pennaeth Addysg
- Penaethiaid Gwasanaeth eraill y bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu arnynt

**(d) Grŵp Adolygu Adroddiadau**

Rôl y Grŵp Adolygu Adroddiadau yw adolygu adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor at ddibenion sicrhau ansawdd cyn i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno i'r broses wleidyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys:

- Y Prif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Strategol
- Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

- Yr Arweinydd
- Penaethiaid Gwasanaeth eraill y bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu arnynt

**2 Dynodiadau Statudol**

**(a)** Mae'n rhaid i'r Cygnor ddynodi swyddogion penodol i'r rolau statudol canlynol:

- Prif Weithredwr
- Swyddog Monitro
- Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151)
- Prif Swyddog Addysg
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant
- Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

Bydd gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a ddisgrifir isod. Mae swyddogaethau'r swyddogion statudol eraill a nodir yn y tabl uchod a'r dynodiadau ffurfiol eraill wedi'u nodi yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 14.

**3. Swyddogaethau'r Prif Weithredwr**

**Cyflawni swyddogaethau'r Cyngor.** Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Cyngor ar y ffordd y mae cyflawniad swyddogaethau'r Cyngor yn cael ei gydlynu, nifer a graddfa'r swyddogion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaethau a'r ffordd y caiff swyddogion eu trefnu.

Bydd yn gyfrifol am:

(a) Arwain y tîm rheoli neu gyfwerth, yn arbennig o ran sicrhau dull corfforaethol.

(b) Sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu ar y broses o gynllunio amcanion a gwasanaethau ymlaen llaw

(c) Sicrhau bod rhaglenni a pholisïau'r holl wasanaethau yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon a bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i'r perwyl hwnnw.

At y dibenion hyn bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod dros bob gweithiwr arall yn y Cyngor.

(ii) Cynghori'r Cyngor, ei fwrdd gweithredol a'i bwyllgorau ar faterion polisi cyffredinol a bob mater arall sydd yn ei farn ef/hi yn angenrheidiol, gyda'r hawl i fod yn bresennol ymhob pwyllgor, is-bwyllgor a gweithgor yn y Cyngor.

(iii) Cynghori'r Arweinydd neu Faer Etholedig y Cyngor neu, os yn briodol, arweinwyr pleidiau, ar unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor.

(iv) Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol a rhwydweithiau, a thrafod ar ei ran.

(v) Cynghori neu wneud trefniadau addas i gynghori Cadeirydd y Cyngor ar bob mater sy'n berthnasol i'w ddyletswyddau yn y swydd honno.

**Cyfyngiadau ar swyddogaethau.** Ni chaiff y Prif Weithredwr fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ond fe all ddal swydd y Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

**4. Swyddogaethau'r Swyddog Monitro**

(a) **Cynnal y Cyfansoddiad.** Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad a bydd yn sicrhau ei fod ar gael i aelodau, staff a'r cyhoedd ymgynghori arno.

(b) **Sicrhau y gwneir penderfyniadau yn gyfreithlon ac yn deg.** Ar ôl ymgynghori gyda'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r Cyngor os bydd o neu hi'n ystyried bod unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn golygu y byddai'r mater yn anghyfreithlon neu petai unrhyw benderfyniad neu hepgoriad yn golygu y byddai'n fater o gamweinyddu.

Byddai adroddiad o'r fath yn golygu atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu nes byddai'r adroddiad wedi'i ystyried.

(c) **Cefnogi'r Pwyllgor Safonau.** Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel, drwy ddarparu cymorth i'r Pwyllgor Safonau.

(d) **Derbyn adroddiadau.** Bydd y Swyddog Monitro yn cael ac yn gweithredu ar adroddiadau a wneir gan yr Ombwdsmon a phenderfyniadau tribiwnlysoedd.

(e) **Cynnal ymchwiliadau.** Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr Ombwdsmon ac yn gwneud adroddiadau neu argymhellion amdanynt i'r Pwyllgor Safonau.

(f) **Swyddog Priodol er mwyn cael mynediad i wybodaeth.** Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, ac adroddiadau a phapurau cefndir swyddogion perthnasol ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd.

(g) **Cynghori a yw penderfyniadau o fewn y gyllideb ac yn unol â'r fframwaith polisïau.** Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori a yw penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith o fewn y gyllideb ac yn unol â'r fframwaith polisïau.

(h) **Rhoi cyngor.** Bydd y Swyddog Monitro yn darparu cyngor ar gwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, anghywirdeb ariannol, cywirdeb a materion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisïau i'r holl gynghorwyr a bydd yn cefnogi ac yn cynghori cynghorwyr a swyddogion yn eu swyddi penodol.

(i) **Cyfyngiadau ar Swyddi.** Ni all y Swyddog Monitro fod yn Brif Swyddog Cyllid nac yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

**5. Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid**

(a) **Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu’n gyfreithlon ac yn gwario arian yn ddarbodus wrth wneud penderfyniadau.** Ar ôl ymgynghori â’r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor ac archwilydd allanol y Cyngor os yw’n credu bod unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithred yn arwain at wariant anghyfreithlon, neu yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

(b) **Gweinyddu materion ariannol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol.

(c) **Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn arbennig drwy roi cyngor ariannol proffesiynol.

(d) **Rhoi cyngor.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn darparu cyngor ar gwmpas pwerau a’r awdurdod i wneud penderfyniadau ariannol, camweinyddu ariannol, anghywirdeb ariannol, cywirdeb a materion yn ymwneud â’r gyllideb i’r holl Gynghorwyr a bydd yn cefnogi ac yn cynghori Cynghorwyr a swyddogion yn eu swyddi penodol.

(e) **Darparu gwybodaeth ariannol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ariannol i’r cyfryngau, y cyhoedd a’r gymuned.

(f) **Cyfyngiadau ar Swyddi.** Ni chaiff y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

## 6 Dyletswydd i ddarparu adnoddau digonol i’r Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y Cyngor yn darparu swyddogion a swyddfeydd i’r Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, yn ogystal ag adnoddau eraill i’w helpu nhw i ymgymryd â’u dyletswyddau.

## 7 Ymddygiad

Bydd swyddogion yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau Swyddogion/Aelodau.

## 8 Cyflogaeth

Bydd prosesau recriwtio, dewis a diswyddo swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogi Swyddogion.

## 12.2 Rheolau'r Weithdrefn Cyflogi Swyddogion

### (1) Recriwtio a phenodi

#### (a) Datganiadau

i) Bydd y Cyngor yn gofyn i unrhyw ymgeisydd i'w benodi/phenodi fel swyddog, i nodi mewn ysgrifen a yw'n rhiant, nain/taid, partner, plentyn, llysblentyn, brawd, chwaer, ewythr, modryb, ŵyr neu'n wyres i gynghorydd neu swyddog presennol o'r Cyngor; neu'n bartner i unigolyn o'r math yma.

ii) Ni fydd unrhyw ymgeisydd sydd yn perthyn felly i gynghorydd neu swyddog yn cael ei benodi/phenodi heb ganiatâd y Cyfarwyddwr/aig Strategol perthnasol neu'r Prif Weithredwr pan fo'r swydd honno mewn gwasanaeth neu swyddogaeth a reolir ganddo. Mewn achos lle bo'r ymgeisydd yn perthyn i'r Prif Weithredwr neu i Gyfarwyddwr/aig Strategol, rhaid cael caniatâd i benodi gan o leiaf ddau o'r canlynol:-

Prif Weithredwr
Swyddog Monitro
Prif Swyddog Cyllid

Ni chaiff unrhyw un o'r uchod ganiatáu penodi swyddog sy'n perthyn iddynt.

#### (b) Gofyn am gefnogaeth i benodi

**i)** Yn amodol ar baragraff (iii), bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw ymgeisydd sy'n gofyn i unrhyw gynghorydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gefnogi ei gais/chais am benodiad gyda'r Cyngor hwn yn anghymwys i wneud cais. Bydd cynnwys y paragraff hwn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw wybodaeth recriwtio.

**ii)** Yn amodol ar baragraff (iii), ni chaiff unrhyw gynghorydd geisio cefnogaeth ar gyfer unrhyw un ar gyfer unrhyw benodiad gyda'r cyngor.

**iii)** Ni fydd unrhyw beth ym mharagraffau (i) a (ii) uchod yn atal cynghorydd rhag rhoi geirda ysgrifenedig i ymgeisydd i'w gyflwyno gyda chais am benodiad.

### (2) Recriwtio'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Strategol

2.1 Bydd y Cyngor yn:

(a) llunio datganiad sy'n manylu ar:

  (i) ddyletswyddau'r swyddog dan sylw; ac
  (ii) unrhyw gymwysterau neu rinweddau a geisir yn yr un a fydd yn cael ei benodi.

(b) gwneud trefniadau i hysbysebu'r swydd mewn modd sy'n debygol o dynnu sylw unigolion sy'n gymwys i wneud cais amdani; ac
(c) gwneud trefniadau i anfon copi o'r datganiad y sonnir amdano uchod i unrhyw un ar gais.

2.2 Pan fo swydd wedi cael ei hysbysebu fel ag yn 2.1 uchod, rhaid i'r

Cyngor: -

(a) gyfweld yr holl ymgeiswyr cymwys ar gyfer y swydd, neu
(b) ddethol rhestr fer o'r ymgeiswyr cymwys hynny a chyfweld y rhai hynny sydd ar y rhestr fer.

2.3 Os nad oes unigolyn cymwys wedi gwneud cais, neu os yw'r Cyngor yn penderfynu ail-hysbysebu'r swydd, gall y Cyngor wneud trefniadau pellach ar gyfer hysbysebu'r swydd yn unol â 2 (1) (b) uchod.

2.4 Lle mae'r Awdurdod yn bwriadu penodi prif swyddog a bod bwriad i dalu tâl blynyddol o £100,000 neu fwy i'r prif swyddog, rhaid hysbysebu'r swydd yn gyhoeddus. Yr unig eithriad i'r gofyniad hwn yw pe byddai penodiad yn cael ei wneud am hyd at 12 mis.

**(3) Penodi'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Strategol, Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

Bydd y Cyngor yn penodi'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol, Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Uwch Benodiadau'r Cyngor am restr fer ar gyfer penodiad o'r math yma.

**(4) Penodi Penaethiaid Gwasanaeth**

Bydd yr Uwch Bwyllgor Cyflogaeth yn penodi Penaethiaid Gwasanaeth oddi ar restr fer sydd i'w llunio gan y Cyfarwyddwr/aig Strategol perthnasol, neu'r Prif Weithredwr os yw'r swyddogaeth honno'n cael ei reoli ganddo.

[Nodyn: Mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r rheolau a wnaed yn Rheoliadau'r Cynulliad. Mae hyn yn golygu mai dim ond aelodau etholedig

fydd yn penodi Cyfarwyddwyr, Swyddog Monitro, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Phenaethiaid Gwasanaeth.]

**(5) Penodiadau eraill**

(a) **Swyddogion ar wahân i'r rheiny yn 3 a 4 uchod.** Cyfrifoldeb i'r Pennaeth Gwasanaeth cyflogedig neu ei enwebai yw penodi'r swyddogion hyn (ar wahân i gymhorthwyr grwpiau gwleidyddol), nid cynghorwyr. Bydd penodiadau yn cydymffurfio â gweithdrefnau recriwtio a dethol cymeradwyedig y Cyngor.

(b) Cymhorthwyr pleidiau gwleidyddol. Bydd penodi cymhorthydd i grŵp gwleidyddol yn digwydd yn unol â dymuniadau'r grŵp gwleidyddol hwnnw.

**(6) Camau disgyblu – Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

(a) Ni ellir cymryd camau disgyblu (ac eithrio cam gweithredu y mae paragraff (b) yn berthnasol iddo) mewn perthynas â Prif Weithredwr, ei Swyddog Monitro, Prif Swyddog Ariannol, neu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gan yr awdurdod perthnasol, neu bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor y mae'r awdurdod perthnasol wedi'u cynrychioli arno neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol, ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan Berson Annibynnol Dynodedig dan Reoliad 9 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2014 (archwilio camymddwyn honedig). Mae'r rheolau manwl ym mharagraff 7 isod.

(b) Mae'r paragraff hwn yn cyfeirio at atal swyddog o'i waith i amcanion ymchwilio i gamymddygiad honedig; cyn belled â bod yr ataliad hwnnw ar gyflog llawn, ac yn dirwyn i ben dim hwyrach na diwedd cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y dyddiad y daeth yr ataliad i rym.

**(7) Ymchwilio i gamymddygiad honedig – Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**

(1) Yn amodol ar baragraff (11), ble mae'n ymddangos i'r awdurdod y gallai honiad o gamymddygiad arwain at gamau disgyblu yn erbyn -

(a) Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yr Awdurdod;
(b) ei Swyddog Monitro, neu
(c) ei Brif Swyddog Cyllid, ("y swyddog perthnasol") yn dibynnu ar yr achos; neu

(d) Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

rhaid i'r awdurdod perthnasol benodi pwyllgor ("pwyllgor ymchwilio") i ystyried y camymddygiad honedig.

(2) Rhaid i'r pwyllgor ymchwilio:

(a) gynnwys o leiaf 3 aelod o'r awdurdod perthnasol.
(b) bod â chydbwysedd gwleidyddol yn unol ag adran 15 Deddf 1989, a

rhaid iddo, o fewn 1 mis i'w benodiad, ystyried yr honiad o gamymddygiad a phenderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach i hyn.

(3) I amcanion ystyried yr honiad o gamymddygiad, gall y pwyllgor ymchwilio:

(a) holi'r swyddog perthnasol neu unrhyw un arall sy'n briodol yn ei farn ef;
(b) gofyn i'r swyddog perthnasol neu i unrhyw un arall sy'n briodol yn ei farn ef, ddarparu gwybodaeth, eglurhâd, neu ddogfennau sy'n angenrheidiol yn ei farn ef o fewn cyfnod penodol o amser; a
(c) gall dderbyn sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar oddi wrth y swyddog perthnasol neu unrhyw un arall sy'n briodol yn ei farn ef.

(4) Pan fo'n ymddangos i'r pwyllgor ymchwilio y dylid ymchwilio ymhellach i'r honiad o gamymddygiad gan y swyddog perthnasol, rhaid iddo benodi unigolyn ("yr unigolyn annibynnol dynodedig").

(5) Rhaid i'r unigolyn annibynnol dynodedig a benodir:

(a) fod yn unigolyn a gytunir rhwng yr awdurdod a'r swyddog perthnasol o fewn 1 mis i'r dyddiad y cododd angen i benodi unigolyn annibynnol dynodedig: neu
(b) lle nad oed cytundeb o'r fath, rhaid iddo/iddi fod yn rhywun a enwebir i'r amcan hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Gall yr unigolyn annibynnol dynodedig -

(a) gyfarwyddo -

(i) bod yr awdurdod yn terfynu cyfnod ataliad y swyddog perthnasol.

(ii) bod unrhyw gyfnod ataliad yn parhau ar ddiwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6 uchod:

(iii) y dylid amrywio'r telerau'r ataliad yn unol â'r cyfarwyddyd ; neu

(iv) na ddylid cymryd unrhyw gamau (boed hynny gan yr awdurdod neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod) disgyblu neu gamau disgyblu pellach yn erbyn y swyddog perthnasol, ar wahân i gamau a gymerir ym mhresenoldeb neu gyda chytundeb yr unigolyn annibynnol dynodedig, cyn gwneud adroddiad dan is-baragraff (d):

(b) archwilio unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag ymddygiad y swyddog perthnasol sydd ym meddiant yr awdurdod, neu y mae gan yr awdurdod bŵer i ganiatáu i'r unigolyn annibynnol dynodedig eu harchwilio:

(c) gofyn i unrhyw aelod, neu aelod o staff yr awdurdod ateb cwestiynau ynglŷn ag ymddygiad y swyddog perthnasol:

(d) cyflwyno adroddiad i'r awdurdod-

(i) yn nodi barn ynglŷn ag (ac, os felly, i ba raddau) y mae'r dystiolaeth sydd mewn llaw yn cefnogi unrhyw honiad o gamymddygiad yn erbyn y swyddog perthnasol; ac

(ii) argymell unrhyw gamau disgyblu sy'n ymddangos yn briodol i'r awdurdod eu cymryd yn erbyn y swyddog perthnasol, a

(e) rhaid, dim hwyrach na'r cyfnod y gwneir yr adroddiad dan is-baragraff (d) anfon copi o'r adroddiad i'r swyddog perthnasol.

(7) Yn amodol ar baragraff (8), rhaid i'r swyddog perthnasol a'r awdurdod, ar ôl ymgynghori gyda'r unigolyn annibynnol dynodedig, geisio cytuno ar amserlen yr ymchwiliad sydd i'w gynnal gan yr unigolyn annibynnol dynodedig.

(8) Lle nad oes unrhyw gytundeb dan baragraff (7), rhaid i'r unigolyn annibynnol dynodedig osod amserlen sy'n briodol ym marn yr unigolyn hwnnw er mwyn cynnal yr ymchwiliad.

(9) Rhaid i'r awdurdod ystyried yr adroddiad sydd wedi ei baratoi gan yr unigolyn annibynnol dan baragraff (6) (d) uchod o fewn 1 mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwnnw.

(10) Bydd yr awdurdod yn talu swm rhesymol i unigolyn annibynnol dynodedig a benodir gan y pwyllgor ymchwilio, ac unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth, neu mewn cysylltiad â, chyflawni'r swyddogaethau dan y rheolau hyn.

(11) Bydd pwyllgor disgyblu'r Cyngor (heb fod yn cynnwys yr unigolion hynny sydd wedi gwasanaethu ar y pwyllgor ymchwilio) yn ystyried yr adroddiad dan baragraff (9) ynghyd â sylwadau'r swyddog y gwneir honiadau yn ei h/erbyn, yn unol â gweithdrefnau disgyblu manwl y Cyngor . Bydd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor hwn yn mynd gerbron y Cyngor llawn, ar wahân i achos y Prif Weithredwr (yn yr achos hwnnw, bydd y Cyngor yn ystyried apêl, neu'n cymeradwyo'r argymhellion y pwyllgor os na wneir apêl).

**(8) Camau disgyblu – Cyfarwyddwr Strategol (Economi a Lle), Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg a Phenaethiaid Gwasanaeth.**

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am gamau disgyblu yn erbyn y Cyfarwyddwr Strategol (Economi a Lle), Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg a Phenaethiaid Gwasanaeth.

**(9) Camau disgyblu neu ddiswyddo**

(1) Ni fydd Cynghorwyr yn rhan o'r broses o ddiswyddo unrhyw swyddog ar wahân i'r Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd heblaw drwy'r broses apeliadau sefydledig.

(2) Bod y diogelwch a roddir gan Reoliadau 8 a 9 o Reoliadau 2006 i gael ei ymestyn i Swyddogion lle cynigir camau disgyblu ar eu cyfer lle'r oedd y swyddog, ond ar adeg y camau disgyblu arfaethedig nad ydynt bellach mewn swydd a ddiogelir, o dan y rheoliadau hynny, a bod y camymddwyn honedig, neu, y rheswm dros gynnig diswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan oedd y swyddog yn swyddog gyda statws a ddiogelir.

**(10) Diffiniadau**

(Mae'r cyfeiriadau at "Ddeddf 1989" yn cyfeirio at Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989)

Mae'r "Prif Weithredwr" yn golygu'r swyddog sydd wedi ei ddynodi fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yr Awdurdod dan Adran 4, 1989.

Mae "Prif Swyddog Statudol" yn golygu:-

(a) y Prif Swyddog Addysg neu'r Cyfarwyddwr/aig Addysg a benodir dan Adran 532 Deddf Addysg 1996.

(b) Y Cyfarwyddwr/aig Gwasanaethau Cymdeithasol a benodir dan Adran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970.

(c) Y swyddog sydd â chyfrifoldeb am amcanion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 73 Deddf Llywodraeth Leol 1985 ac Adran 112 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

(d) Penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan Adran 16 o'r Mesur Llywodraeth Leol 2011

Mae "Prif Swyddog Anstatudol" yn golygu:-

(a) unigolyn y mae'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol gyfrifol amdano/amdani;

(b) unigolyn y mae disgwyl iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfan neu'r mwyafrif o ddyletswyddau'r swydd, adrodd yn uniongyrchol, neu fod yn atebol yn uniongyrchol i Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yr awdurdod.

(c) unigolyn y mae disgwyl iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfan neu'r mwyafrif o ddyletswyddau'r swydd, adrodd yn uniongyrchol, neu fod yn atebol i'r awdurdod lleol ei hun, neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod hwnnw.

Mae "Dirprwy Brif Swyddog" yn golygu rhywun sydd mewn perthynas â'r cyfan neu'r mwyafrif o ddyletswyddau'r swydd yn gorfod adrodd yn uniongyrchol, neu fod yn atebol yn uniongyrchol i un neu ragor o'r prif swyddogion statudol neu anstatudol.

Mae "Prif Swyddog Cyllid" neu "Swyddog Adran 151" yn golygu'r swyddog sydd wedi ei benodi i amcanion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 73 Deddf Llywodraeth Leol 1985 neu Adran112 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Mae "Swyddog Monitro" yn golygu'r swyddog sydd wedi ei ddynodi dan Adran 5 (1) Deddf 1989.

Mae "Prif Swyddog" yn golygu:

(a) Prif Weithredwr
(b) Swyddog Monitro
(c) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
(d) Prif Swyddog Statudol
(e) Prif Swyddog Anstatudol

Mae "Camau Disgyblu" yn golygu;-

Mewn perthynas ag aelod o staff awdurdod perthnasol, unrhyw gamau a gymerir o ganlyniad i gamymddygiad honedig, a fyddai, pe bai'n cael ei brofi yn unol ag arfer yr awdurdod, yn cael ei gofnodi ar ffeil personol yr aelod staff, ac sy'n cynnwys unrhyw gynnig i ddiswyddo aelod staff am unrhyw reswm arall ar wahân i golli swydd, salwch parhaol, neu wendid meddwl neu gorff, ond heb fod yn cynnwys methiant i adnewyddu contract cyflogaeth am dymor sefydlog oni bai bod yr awdurdod perthnasol wedi addo adnewyddu contract o'r fath.